# Cofnodion cyfarfod

# 6/1/2022

**Presennol:** Y Maer Rhys Evans, Y Dirprwy Faer Sharon Evans, Dilys Evans, Elin Hedd, Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price, Eifion Roberts, Heledd Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams *(ffôn)*

Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw *(Clerc)*.

*Ivora Jones (wedi cysylltu ymlaen llaw trwy'r ffôn)*

1. **Croesawyd pawb gan y Maer, O Rhys Evans** a ddymunodd flwyddyn newydd dda ac iach i bawb. Mynegwyd cydymdeimlad gyda Carol Rowlands a'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ivora Jones a oedd wedi cyflwyno sylwadau ar gyfer y cyfarfod.

   Dywedodd y Maer iddo ymweld ag aelodau'r Teulu Berwyn wrth ddosbarthu te prynhawn. Roeddent yn werthfawrogol iawn o gyfraniad y Cyngor; mynegodd ddiolch arbennig i Gwenan Watkin am drefnu ac i Nia Cyfnod am yr arlwyaeth.

   Cyfeiriodd at y tymheredd 16 gradd ar ddydd Calan, yr uchaf yn y DU.

2. **Buddiant:** Derbyniwyd datganiadau buddiant gan

   i. Carol Rowlands ym mater 13i (Cais cynllunio cymydog)

   ii. Tony Parry ym mater 13iv (Cais Cynllunio Rheilffordd Llyn Tegid - y cysylltiad gyda'r Clwb Rygbi wedi ei gwblhau ers dros blwyddyn).

   iii. Eluned Jones ym mater 8iii (aelod o bwyllgor y Plase)

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 2/12/21.

4. **Materion y Clerc:**

   i. Ni ddaeth ymateb manwl oddi wrth Gyngor Gwynedd i gais am gostau'r toiledau; derbyniwyd gwybodaeth fod toiledau'r anabl yn Y Grîn wedi eu trwsio erbyn hyn a diolchwyd i Gyngor Gwynedd am hyn.

   ii. Llywodraeth Cymru: Cytunwyd i ymateb fel Cyngor i Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr erbyn trwy gefnogi'r sylwadau a gyflwynwyd gan Un Llais Cymru. Pwysleisiwyd mor bwysig ydyw ymateb yn unigol hefyd.

   iii. Bydd y Clerc yn parhau i gysylltu gyda Branwen Haf a disgyblion Ysgol Godre'r Berwyn mewn perthynas ag amser cyfleus i gyfarfod, gan wahodd Mabon ap Gwynfor os yn bosib cyfarfod mewn lleoliad llai ffurfiol.

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd a ddywedodd fod adnoddau'r Cyngor yn cael eu rhoi i gynnal gwasanaethau rheng flaen oherwydd y Covid. Diolchodd i'r Pwyllgor Nadolig am eu gwaith. Ategwyd hyn gan sylwadau Ivora Jones

   Derbyniwyd gwybodaeth fod profion *lft* ar gael yn y Llyfrgell ac awgrymodd y Maer fod yr wybodaeth yn mynd allan.

6. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Tony Parry a soniodd fod llawer o waith paratoi wedi ei wneud. Bydd gwaith torri coed yn dechrau yn fuan. Cytunwyd i wahodd Andrew Basford i gyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror. Diolchwyd i Tony Parry am ei adroddiad, ac addawodd gysylltu er mwyn sicrhau fod y meinciau yn cael eu cadw'n ddiogel dros gyfnod y gwaith.

7. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad Alun Price a ddywedodd fod y gwaith arferol yn mynd yn ei flaen.

8. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiadau:

   i. **Nadolig –** derbyniwyd adroddiad ar y gweithgareddau a dywedwyd fod y goleuadau gan Gyngor Gwynedd wedi costio £1400 eleni; disgwylir mwy o anfonebau yn fuan.

   ii. **Cyllid -** arweiniodd Eifion Roberts y Cyngor trwy gofnodion yr is-bwyllgor. Manylodd y Clerc ar y Gyllideb ystyried argymhellion ar gyfer Cyllideb a Praesept 2022-23**.** Cytunwyd i dderbyn y Cofnodion, y Gyllideb a'r argymhellion, yn cynnwys cadw lefel y Praesept yr un fath a llynedd. Mae derbyn yr ardoll wedi bod o gymorth i gadw lefel yr praesept yr un â'r llynedd. Trafodwyd eitem yn y gyllideb cyfalaf ar gyfer creu gweithgor i wella delwedd y dref a chytunwyd i greu'r pwyllgor gan ddiddymu'r is-bwyllgor Nadolig. Tynnwyd sylw at yr eitem am gostau etholiad gan y cynhelir etholiadau Gwynedd a Chyngor Tref ym mis Mai.

   iii. Cymeradwywyd gwneud yr argymhellion am weddill cyfraniadau ariannol (o gyllideb diwedd Mawrth 2021) fel a ganlyn: Plase £200; apêl Eisteddfod yr Urdd Dinbych £200.

**9. Materion Cyllid misol:** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, yn cynnwys

   **i.** Derbyniadau: ad-daliad Y Domen (£1620) ac ad-daliad ardoll (£2925.40)
   **ii.** Cymeradwywyd taliadau o dan Gytundeb: Cyflog y Clerc, PAYE, Glanhau Llochesi (Rhagfyr).
   **iii.** Cymeradwywyd hefyd y cyfraniadau cymunedol o gyllideb 2020-21(gw. 8ii uchod) sef cyfanswm o £400.
   **iv.** Toiledau: cymeradwywyd talu cyfran Cyngor Tref Y Bala tuag at y toiledau cyhoeddus am y flwyddyn 2021-22, sef £8000.

**10. Materion Cynllunio**

*i.* **NP5/53/570A** Adeiladu to brig dros y garej, gosod estyniad dormer ar hyd lled yr edrychiad cefn 25 Cae Gadlas, Bala. LL23 7AT *Cymeradwywyd y cais, gan dynnu sylw Parc Cenedlaethol Eryri at yr angen i ymgynghori gyda chymdogion am y posibilrwydd o golli goleuni.*

ii. **NP5/53/LB301L** Adeiladu estyniad cefn unllawr Plas yn Dre, Stryd Fawr, Y Bala. LL23 7LU – *cymeradwywyd.*

**iii a iv** Awgrymodd y Maer y dylid ystyried y canlynol gyda'i gilydd

**NP5/70/LB28** Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer newidiadau i'r bont droed gan gynnwys gosod trac trên a gwaith cysylltiedig Pont Mwnwgl-y-Llyn, Bala.

**NP5/53/576** Estyniad arfaethedig i reilffordd trac cul Llyn Tegid i gynnwys 1200m o drac reilffordd, croesfan reilffordd, codi gorsaf reilffordd newydd, adeiladau ategol ar gyfer injan drên a cherbydau, blwch signal ynghyd a datblygiad cysylltiol.

Cytunwyd i aelodau Cyngor Tref Y Bala gyfarfod ar 13/1/21 am 7.00pm er mwyn trafod o gwmpas y bwrdd yn yr Henblas. Nodwyd fod Partneriaeth Penllyn wedi comisiynu adroddiad ar effaith y datblygiad ar yr ardal. Dywedodd Cynghorydd Dilwyn Morgan fod adroddiad ieithyddol wedi cael ei wneud ar ran Rheilffordd Llyn Tegid.

Cytunwyd hefyd i anfon at Barc Cenedlaethol Eryri i ofyn am estyniad byr nes bo Cyngor Tref Y Bala wedi dod i benderfyniad.

**11. Gohebiaeth:** *Yn cynnwys:*

- **i.** Cyngor Gwynedd: derbyniwyd rhybudd am gostau etholiad
- **ii.** Dosbarthwyd neges oddi wrth Byd Mary Jones
- **iii.** Dosbarthwyd neges am gau Heol Tegid oherwydd gwaith ar y pibellau dwr

12. **Asedau'r Cyngor:** derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands bod eu cyflwr y dderbyniol ond bod golwg cyffredinol digalon ar y dref. Addawodd Tony Parry i holi Cyfoeth Naturiol Cymru am drefniadau diogelu'r meinciau. Diolchwyd i'r ddau am eu gwaith. Ni dderbyniwyd ymateb i'r neges am arwyddion sydd wedi troi.

13. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref**

Cyfarfodydd nesaf: 13/1/22 Cyfarfod arbennig i drafod ceisiadau cynllunio Rheilffordd Llyn Tegid Canolfan Henblas 7.00pm

3/2/22 Cyfarfod Chwefror Zoom a Canolfan Henblas 7.00pm

*Amser gorffen: 8.15pm*



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / ......................................(CLERC)